



The Wyn Campaign

Regaining and retaining independence

FIN(4)-20-12 Papur 3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Pwyllgor Cyllid Ymchwiliad: Buddsoddi i Arbed


Papur Tystiolaeth a ddarparwyd gan Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Ymgyrch Wyn. (Tachwedd 2012)

Cefndir

Ffrwd gwaith Pobl Hŷn Musgrell Rhaglen Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a Bro Morgannwg yw'r Ymgyrch Wyn. Nod datganedig y bartneriaeth hon yw:

- Codi ansawdd ein gwasanaethau drwy ail-ddylunio gwasanaeth a phroses;
- Rhoi'r annibyniaeth a'r lles gorau posibl i'n dinasyddion a'u teuluoedd yng nghydestun eu bywydau a'u cymunedau;
- Parhau i ddatblygu ein harbenigedd staff - gweithio'n wahanol gyda'n gilydd;
- Gwneud y defnydd gorau posibl o arian drwy gyd-grynhoi ein hadnoddau fel eu bod o fudd i ddinasyddion.

Mae'r Ymgyrch yn ceisio alinio a chydlynu mentrau i gefnogi troi polisi a strategaeth yn realiti gweithredol, drwy greu'r 'Tîm o Amgylch Wyn' fel y manylir isod:



Mae'r Ymgyrch Wyn yn rhaglen newid drawsnewidiol hir dymor a gaiff ei gweithredu mewn 2 neu 3 Cam.

Ym mis Mai 2012 cyflwynodd yr Ymgyrch gynnis Buddsoddi i Arbed llwyddiannus er mwyn cwblhau Cam 1. Bydd hyn yn darparu gwasanaethau cyson yn y gymuned drwy'r tri Tîm Adnodd Cymunedol lleol, wedi eu canolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol:

- Rhyddhau cynnar o'r ysbyty wedi ei hwyluso: uchafswm amser ymateb 3 diwrnod o'r amser atgyfeirio hyd nes i Wyn yn cael ei gynnal yn y cartref;
- Llwybr amgen ar gyfer cwympiadau i osgoi cludo diangen i'r ysbyty gan Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru;
- Darparu'r rhaglen cryfder a chydbwysedd Otago, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i gleifion sydd wedi cwmpo sy'n gaeth i'w cartrefi;
- Mewn-gymorth i gartrefi gofal er mwyn atal derbyniadau i'r ysbyty y gellid fod wedi eu hosgoi;
- Cefnogaeth amlddisgyblaeth i bobl ag un neu ragor o gyflyrau cronig, sydd fwyaf mewn perygl o orfod mynd i'r ysbyty;
- Cefnogaeth a flaenoriaethwyd i gleifion a nodwyd gan y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Pobl Hŷn Musgrell (tîm amlddisgyblaeth sgilgar yn yr Uned Brys) a Gwasanaeth Asesu Gofal yr Henoed ('clinig cyflym' mewn ysbyty cymunedol).

C1. Pa effaith gaiff Buddsoddi i Arbed, ac a yw'n bodloni'r diben a fwriadwyd iddo - "cefnogi sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd i wneud y trosglwyddiad i fathau darpariaeth gwasanaethau mwy effeithlon, mwy effeithiol, a mwy cynaliadwy"?

Mae nodau Ymgyrch Wyn yn gyson iawn â'r diben hwn. Fe'i seilir ar y theori mai trwy roi cefnogaeth brydlon, wedi ei theilwra a'i thargedu i'r cyfeiriad arall, byddwn yn cefnogi Wyn i barhau'n fwy annibynnol yn hirach a gohirio'r gofyn am ddulliau gofal mwy costus. Nid synnwyr ariannol cadarn yn unig mo hyn, mae hefyd yn gyson â'r hyn y dywed pobl hŷn wrthym, yn genedlaethol ac yn lleol, y mae ei eisiau arnynt (e.e. Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree, 2011).

Mae'r achos tu cefn i'r cyflwyniad fel a ganlyn:

- Bydd y buddsoddiad mewn gwasanaethau cymunedol wedi'u targedu yn gwella llif cleifion mewnol ysbytai;
- Bydd hyn yn lleihau'r angen blynyddol am gynnydd trymach nac arfer yn y gallu i ymdrin â gwasgfeuron yn y gaeaf ac ati;
- Caiff y gallu a grëir, yn y lle cyntaf, ei ddefnyddio i wella perfformiad yn yr amseroedd aros ar gyfer gweithgaredd dewisol;
- Yn yr ail flwyddyn bydd y dull mwy rheoledig yn galluogi lleihau'r cynnydd trymach nac arfer yn y gallu blaenorol i ryddhau'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y gwasanaethau cymunedol newydd;
- Erbyn y drydedd flwyddyn bydd y symudiad mewn gweithgaredd yn galluogi cau digon o welyau ysbyty i hwyluso talu'n ôl y benthyciad Buddsoddi i Arbed yn llawn.

Mae ymgyrch polisi cryf i symud i'r math o ddarpariaeth gwasanaeth a ddangosir gan y model 'Tîm o Amgylch Wyn' ac mae partneriaeth Caerdydd a Bro Morgannwg yn un o lawer o raglenni newid trawsnewidiol o'r fath yng Nghymru.

Mae'r rhaglen Buddsoddi i Arbed yn allweddol mewn darparu arweiniad a chefnogaeth i werthuso a rhannu arfer da.

Y mater a wynebir gan bartneriaeth Caerdydd a Bro Morgannwg yw un o wasgfa cost sylweddol ar bob sefydliad statudol a'r sector gwirfoddol. Felly ystyriwyd Buddsoddi i Arbed fel y llwybr gorau i'n galluogi i ddatblygu cam cyntaf y rhaglen uchelgeisiol hon. Golyga'r canolbwyntio ar ddarpariaeth a newidiwyd yn sylweddol o'r ymyrraeth sydd â thystiolaeth well bod y risg ynglŷn â thalu'n ôl yn cael ei leihau ac felly mae'n bosibl i'w oddef yn yr hinsawdd bresennol.

Fodd bynnag, yr her fu i ddatblygu'r achos busnes tanategol er mwyn nodi cynaliadwyedd y model fel cyfanwaith yn y dyfodol. Mae'r sail tystiolaeth ar gyfer y math o fodel a ddarlunnir yn sylweddol o ran ansawdd a bodlonrwydd y dinesydd, ond yn llai felly o ran cyllid, yn enwedig yn y tymor hir.

Bydd gwerthuso cynlluniau megis yr Ymgyrch Wyn yn cynorthwyo i adeiladu'r dystiolaeth honno, ond ar y cam hwn nid yw'n bosibl datgan â hyder y bydd pob £ a warir ar ymyrraeth gynnar, i osgoi ynysu cymdeithasol er enghraifft, yn cynhyrchu *gwerth* x o arbedion mewn gofal GIG eilaidd. Nid yw'n bosibl chwaith, gan ddefnyddio'r dystiolaeth bresennol neu'r wybodaeth modelu sydd ar gael i'r partneriaid, i briodoli'r arbedion a geir yn uniongyrchol o ymyriadau o'r fath mewn gofal cymdeithasol mwy hir dymor - er bod rhesymeg glir yn awgrymu mai dyna fydd yn digwydd. Hyd yn hyn yr unig dynnu o'r gronfa fu gan Bwrdd Iechyd Prifysgol gydag Awdurdodau Lleol yn dewis peidio gorfod cario costau talu'n ôl.

Felly, er bod y cyfleuster Buddsoddi i Arbed wedi bod yn amhrisiadwy i roi dechrau i'r newid sylweddol a fydd yn gosod y sylfeini ar gyfer gweithredu'r model darparu gwasanaeth newydd, mae'r perygl o'i defnyddio fel mecanwaith ar gyfer cyflawni integreiddiad a newid trawsnewidiol ar raddfa fwy yn debyg o gael eu hystyried yn rhy fawr gan sefydliadau sydd o dan wasgfa ariannol.

C3. Beth yw'r gwersi a ddysgwyd, ac a ellid rhannu ac ymestyn enghreifftiau o arfer da yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus?

Mae'r tîm Buddsoddi i Arbed wedi annog sefydliadau sy'n ceisio gweithredu cynlluniau tebyg i weithio gyda'i gilydd, i rannu profiadau ac i ddatblygu fframweithiau gwerthuso cyffredin a fydd yn cefnogi newid sylweddol mewn gwasanaethau ledled Cymru.

Ar gyfer yr Ymgyrch Wyn, arweiniodd hyn at gyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr rhaglen yng Nghwm Taf a Hywel Dda, gyda Gwent i ymuno yn y dyfodol agos. Mae trafodaethau ar y gweill i weithio gydag OPAN/Prifysgol Morgannwg i ddatblygu fframwaith gwerthuso gyffredin gadarn.

Mae hefyd wedi ei gwneud yn angenrheidiol i gael cydweithio agosach rhwng y sefydliadau partneriaeth, sydd wedi bod yn gadarnhaol i bob parti.

C4. Pa arbedion a gyflawnwyd o ganlyniad i ddyfarniadau o'r gronfa?

Rhodddwyd rhan derfynol Cam 1 'ar waith' ar 1 Tachwedd 2012. Recriwtiwyd tua 50 o aelodau newydd i staff y Timau Adnodd Cymunedol a byddant yn derbyn dyfeisiau symudol i gefnogi gwell effeithlonrwydd (rhagor o amser gyda defnyddwyr gwasanaeth a llai o deithio'n ôl i'r pencadlys a llenwi dogfennaeth).

Cyd-ddigwyddodd hyn gyda gweithgaredd nad oedd angen buddsoddiad ychwanegol, ond mae wedi gwneud y gorau o adnoddau presennol drwy weithio'n wahanol gyda'n gilydd. Mae hyn yn cynnwys er enghraifft:

- y Gwasanaeth Cynghori a Chyswllt Pobl Hŷn Musgrell (FOPAL), sy'n dwyn geriatregwyr a'r tîm amlddisgyblaeth i 'ddrws ffrynt' yr ysbyty i sicrhau bod Wyn yn derbyn asesiad ac ymyrraeth brydlon a medrus, a fydd yn rhoi cefnogaeth gymunedol lle bynnag y bo hynny yn orau iddo ef/hi fel dewis amgen i fynd i'r ysbyty;
- y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig sy'n dwyn ynghyd weithwyr y GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu profiad mwy di-dor ar gyfer cleifion sydd ag anghenion rhyddhau mwy cymhleth;
- datblygiad gweithlu yn cynnwys gweithdai neu ail-ddylunio llwybr a'r 'Y Canllaw i Integreiddiad'.

Mae Gwerthusiad Llinell Sylfaen yn cael ei ddatblygu, ac mae arwyddion cynnar bod rhai o'r targedau a osodwyd gennym i'n hunain (e.e. uchafswm amser ymateb o 3 diwrnod o'r amser atgyfeirio i ryddhau a hwyluswyd gyda'r CRT) wedi eu cyflawni'n barod.

Mae'n gynnar yn ein Rhaglen i nodi pa arbedion a wnaed. Y bwriad yw rhyddhau'r arbedion dros y 3 blynedd nesaf. Rydym wedi modelu'r ail-ddylunio i ddatblygu gofal a chefnogaeth a ddarperir yn y gymuned a lleihau'r ddibyniaeth ar welyau ysbyty i gleifion. Ein bwriad yw lleihau gwelyau cleifion mewnol yn y tymor canolig er mwyn sicrhau model cynaliadwy ac ail dalu'r benthyciad Buddsoddi i Arbed.

C5. A oes unrhyw rwystrau i fynediad h.y. a oes unrhyw elfennau o broses y gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n ei gwneud hi'n anodd cyfranogi yn y cynllun?

Mae'r tîm Buddsoddi i Arbed wedi bod yn eithriadol agored a chynorthwyol ac wedi darparu arweiniad a chefnogaeth drwy gydol y broses. Nid ydym wedi dod ar draws unrhyw rwystrau i gyfranogi yn y cynllun.

Ymgyrch Wyn: Ffynonellau Gwybodaeth

10 High Impact Changes for Complex Care. (Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG, 2011)

A Better Life; What Older People With High Support Needs Value (Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree, Tachwedd 2011)

A Guide to Crisis Response Services (Yr Adran Iechyd, 2009)

Cyflawni gwell effeithlonrwydd mewn Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. (John Bolton. AGGC Cymru, 2010)

Avoiding Hospital Admissions: Lessons from evidence and experience (The Kings Fund, 2010)

Integrated care for patients & populations: Improving outcomes by working together (The King's Fund a Nuffield Trust, Ionawr 2012).

Integrated Care: What is it? Does it work? What does it mean for the NHS? (The Kings Fund, 2011)

Joining up health and social care: Improving value for money across the interface (Y Comisiwn Archwilio, Rhagfyr 2011)

Oed yr Addewid: Ehangu'r gorwelion ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru)

National Evaluation of the Department of Health's Integrated Care Pilots (RAND Europe, Ernst & Young LLP ar gyfer yr Adran Iechyd, Mawrth 2012)

Evaluation of the Implementation of PRISMA, a Coordination-Type Integrated Service Delivery System for Frail older People in Quebec (Herbert et al, 2008. Journal of Integrated Care, Cyfrol 16, Rhifyn 6 tud 4-14)

Quality, Development & Leadership: Lessons to Learn from Jonkoping (Gozzard a Willson, 2011. 1000 o Fywydau a Mwy Cyfres Papur Gwyn Gwella Gofal Iechyd - Rhif.4)

Asesiad o ddyfodol anghenion iechyd a gofal iechyd pobl hŷn yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg 2010-2030: patrymau mewn demograffeg a'r afiachusrwydd yn arwain at anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. (Linda Davies: Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg, 2011.)

Integrated Care for Patients and Populations: Improving outcomes by working together
The King's Fund 2011,

http://www.kingsfund.org.uk/publications/future_forum_report.html

Intermediate care: what do we know about older people's experiences?

Sefydliad Joseph Rowntree, 2003.

<http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/185935131x.pdf>

Briff Data The Kings Fund (Ebrill 2012) *Emergency hospital admissions for ambulatory care sensitive conditions: identifying the potential for reductions.*

Quality Care for Older People with Urgent & Emergency Care Needs. ('The Silver Book') 2012.

Gosod y Cyfeiriad; Rhaglen Cyflenwi Strategol Gwasanaethau Cyntaf a Chymunedol (2010) Llywodraeth Cymru

Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol (2010)
Llywodraeth Cymru

Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (2011)
Llywodraeth Cymru

Integrated care for older people: Examining workforce and implementation challenges. (2011) Centre for Workforce Intelligence.

<http://www.cfwl.org.uk/publications/integrated-care-for-older-people-examining-workforce-and-implementation-challenges>

Transforming the Delivery of Health and Social Care: the case for fundamental change.
Ham, C; Dixon, A; and Brooke, B. The Kings Fund, Awst 2012

Cross sector working to support large-scale change
Y Sefydliad Iechyd, Awst 2012

Appleby, J; Ham, C; Imison, C; Jennings, M. (2010)
Improving NHS Productivity: More with the same not more of the same
The Kings Fund